agor y blwch llythyrau. Ambell waith, treuliai ran o'r amser i ymddiddan â'r ddwy chwaer ym Mryneithin neu'r teiliwr yn Nhŷ'r Capel. Diddorol a chartrefol oedd y sgwrs a geid yno—cyfrifid Mr. Evans, yr adeg honno, fel un o drigolion Esgerdawe. Bu yno'n fawr ei barch am gyfnod maith. Ni ellid dymuno gwell *cymydog* nag ef yr ochr arall i fur iard yr Ysgol.



D. Arthur Evans, y Postman

25.10.'48—Mr. Lewis, Attendance Officer visited school at 3.15 p.m.

31.5.'49—Dr. Herbert examined five children today.

19.7.'49—Nurse Angel examined 7 girls and 5 boys today.

5.12.'49—Mr. Davies, School Dental Officer carried out dental treatment for 4 children.

20.6.'50—The Meals Organiser visited the school and provided us with 1 doz. knives, 1 doz. forks and 1 doz. spoons.

17.11.'50—Mr. Morris, lecturer of the R.S.P.C.A. delivered a lecture to 10 children.

8.6.'51—Miss Richards, Meals Organiser visited the school.

14.1.'53—Miss Jones, Welfare Officer called at the school.

2.2.'53—Ymweliad Miss M. M. Jenkins, H.M.I.

15.5.'53—Galwodd David Thomas, Ysw., Brechfa yma heddiw.

4.9.'53—Ymweliad Mr. Day, y Deintydd.

11.2.'54—Galwodd Mr. H. J. Hughes, Rheolwr yr Ysgol a bu'n archwilio ac arwyddo'r Gofrestr.

26.4.'56—Ymweliad Mr. Iorwerth Howells, Cyfarwyddwr Addysg y Sir.

27.6.'56—Bu Mr. Knell, o Landeilo yma'n tiwnio'r piano.

7.5.'57—Ymwelodd y Parchedig Giraldus Jones, Gweinidog Esgerdawe â'r ysgol prynhawn heddiw.

4.9.'58—Galwodd Miss Richards, Trefnydd Bwydydd yr Ysgolion yma.

10.11.'58—Bu Mr. T. J. Rhys Jones, Trefnydd Iaith y Sir yma heddiw.

18.11.'58—Ymweliad Mr. Elfed Morgan, Trefnydd Cerdd y Sir.

23.7.'59—Galwodd Mr. H. J. Hughes, Rheolwr yr ysgol. (Dyma'r ymwelydd olaf a fu yma).

Wrth ddarllen am y gwahanol ymwelwyr a ddeuai o dro i dro, mae'n syndod eu bod yn cymryd y fath ddiddordeb mewn ysgol anghysbell fel hon. Er hynny, deuai'r rhan fwyaf ohonynt yn



Hugh J. Hughes, Rheolwr yr Ysgol, 1946-59

rhinwedd eu swydd. Tebyg mai cerdded a wnâi'r mwyafrif ohonynt yn y cyfnod cynnar. Mae pethau wedi newid erbyn hyn, a hawdd yw cyrchu at unrhyw ysgol. Eithriad yw cyfarfod ag unrhyw berson cyfrifol nad yw'n berchen ei gerbyd ei hun. Daeth hyd yn oed y lleoedd mwyaf diarffordd yn gyfleus i bawb.

## RHEOLWYR A GOFALWYR

Nid oes cofnodion pendant ar gael am gyfnodau'r rheolwyr. Ar y dechrau, 'roedd aelodau a chadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am reoli llawer ynglŷn â'r adeiladau a'u cynnwys.

Dyma enwau'r rhai a alwai'n gyson gan archwilio'r Gofrestr, arwyddo'r Llyfr Cofnodion a nodi nifer y plant a oedd yn bresennol:

John Jones, Caemawr
Thomas Thomas, Maesteile
David Thomas, Gelliwrol
John Davies, Cwmdawe
John Rees, Cadeirydd y Bwrdd
Thomas Lewis, Is-Gadeirydd y Bwrdd

Wedi i'r Byrddau Ysgol ddod i ben yn 1902, penodwyd rheolwyr sefydlog i bob ysgol. Bu nifer ohonynt yn dal y swydd hon yn Esgerdawe. Wele'u henwau ynghyd â'r dyddiad cyntaf a gofnodwyd o'u hymweliad â'r ysgol:

John Davies, Cwmdawe—Ebrill 18fed, 1905
Thomas Thomas, Maesteile—Chwefror 13eg, 1917
Thomas Morgans—Mehefin 13eg, 1922
Simon Jones—Chwefror 17eg, 1926
Evan T. Thomas, Glynbyr—Medi 29ain, 1926
Thomas Jones, Gwarcoed—Mehefin 22ain, 1934
Hugh John Hughes, Esgerdawe Farm—Gorffennaf, 1946.


Bu Mr. Hughes yn rheolwr yr ysgol nes iddi gau yng Ngorffennaf, 1959. Deëllir oddi wrth y cofnodion iddynt lanw'r swydd gyda ffyddlondeb cyson, gan gymryd diddordeb eithriadol yng nghyflwr yr adeiladau. Gwnaethant bopeth yn eu gallu er mwyn sicrhau bod y cyfan yn foddhaol, a hynny er hwylustod y plant a'r athrawon. Pe digwyddai rhyw anffawd i ran o'r adeilad adeg stormydd geirwon, gellid dibynnu ar y rheolwyr i wneud trefniadau ar gyfer yr atgyweiriadau angenrheidiol. Nid

oes achwyniad chwaith fod rheolwyr y ganrif hon wedi ymyrryd yng ngwaith y Prifathro, ond, yn hytrach, wedi cadw at eu dyletswyddau.

Er i rywrai ofalu am lanhau'r ysgol oddi ar ei hagoriad, ni chofnodwyd eu henwau yn y Llyfrau Cofnodion yn ystod y blynyddoedd cynnar. 'Roedd cyfrifoldeb aruthrol ar eu hysgwyddau hwy am fod y grant a delid yn dibynnu ar eu hymdrechion. Yn ddiamau, 'roedd mwy o waith glanhau yn y cyfnod hwnnw am fod cynifer o blant yn mynychu'r ysgol. Tâl bychan a gaent ac nid oedd ganddynt y defnyddiau a geir heddiw i hwyluso'r gwaith. Ceid tipyn o fryntni ar ôl i'r esgidiau bawlyd dramwy yn ôl ac ymlaen drwy'r dydd. Nid oedd iard yr ysgol yn helpu dim. Pridd oedd ei harwynebedd. Codai'r llwch yn gymylau wrth ysgubo'r lloriau ac ni cheid dim i'w atal yn y dyddiau hynny.

Credir bod Miss Nellie Morgan, Bryneithin wedi dechrau glanhau'r ysgol yn nau ddegau cynnar y ganrif hon. Cyflawnodd ei gorchwylion gyda diwydrwydd a chysondeb, a hynny yn hollol ddirwgnach. Mawr oedd ei diddordeb yn y gwaith a gofalai fod popeth yn lân a threfnus bob amser. Ar Fehefin 6ed, 1944, dechreuwyd cael cinio dwym o dan nawdd y Pwyllgor Addysg. Cymerodd Miss Morgan at y gwaith o rannu'r bwyd a golchi'r llestri yn ogystal. Gwnaeth hyn eto gyda'r un ffyddlondeb, gan sicrhau bod sglein ar bopeth yn wastadol. Ymddeolodd ar Dachwedd 5ed, 1945, ar ôl gwasanaeth clodwiw am gyfnod maith.

Wedi hynny, cymerwyd at y gwaith gan Mr. Dafydd Jones, Tŷ'r Capel—dros dro yn unig. Teiliwr oedd ef wrth ei alwedigaeth. Cymerai ddiddordeb eithriadol ym mhopeth perthynol i Gapel Esgerdawe. Arferai olchi'r llestri cinio wedi i'r plant a'r athrawes ymadael am hanner awr wedi tri. Gwnaeth y cyfan yn ganmoladwy hyd Ragfyr 2ail, 1946. Ymddeolodd a daeth Miss Margaret Jane Morgan, eto o Fryneithin i'r adwy. Nid oes geiriau digonol i roddi'r clod dyladwy i hon. Ymroddodd yn llwyr yn ei gwaith a llanwodd y swydd hyd yr ymylon. Cael y cyfan yn gyfforddus i'r plant a'r athrawon oedd ei nod, a hynny



Dafydd Jones a'i ŵyr

heb gyfri'r gost. 'Roedd popeth yn ddilychwin—dim sôn am we pry copyn yn unman. Disgleiriai'r dodrefn, hyd yn oed golfachau desg yr athrawon a phedalau'r piano. Ceid olion polis pres a rhwbio cyson ar y rheini.

Os na ddeuai'r plant â blodau i'r ysgol, gofalai Miss Morgan fod rhai yno i sirioli'r lle. Pan na fyddai blodau'n gyfleus deuai â dail neu enghreifftiau o weiriau pwrpasol o'r cloddiau. Ni châi'r chwyn lonydd ar yr iard chwaith. Âi allan o'i ffordd, drwy ddefnyddio halen neu rywbeth addas i'w ladd. Cadwai'r allanolion yn berffaith lân a chymen. Nid oedd Miss Morgan yn ail i neb am olchi'r llestri a chadw'r gegin yn ddifrycheulyd. Gwnâi ffedogau i'r plant lleiaf er mwyn arbed eu dillad wrth fwyta cinio. Golchai'r rhain yn gyson, yn ogystal â'r llieiniau sychu llestri a'r llieiniau bwrdd. 'Roedd y cyfan yn wyn fel eira bob amser. Pan ddeuai Arolygwyr y Weinyddiaeth Addysg, y Cyfarwyddwr Addysg a Threfnwyr Bwydydd Ysgolion ar eu tro, edmygent lafur a glanweithdra'r ddynes hon yn wastadol.

Rhoddodd Miss Margaret J. Morgan y gorau i lanhau'r ysgol ar Hydref 30ain, 1956, pan ailgymerodd Nellie, ei chwaer at y



Miss M. J. Morgan

gwaith hwnnw. Eithr cadwodd at y gorchwyl o olchi'r llestri hyd y diwrnod olaf. Yn ddiamau, ni chafwyd rhagorach gofalwyr mewn un ysgol erioed. 'Roeddent wrth eu bodd yn hwyluso taith y plant a'r athrawon yn y cyfnod olaf.

## PETHAU DIDDOROL O'R LLYFRAU COFNODION

Ceir pedwar o Lyfrau Cofnodion yn llawn o ddigwyddiadau diddorol parthed Ysgol Esgerdawe. Wrth olrhain hanes yr ysgol, canfyddwn lafur cyson y prifathrawon. Gwnaethant eu gorau glas i groniclo'r pethau pwysig o ddydd i ddydd fel y byddent ar gael a chadw i'r cenedlaethau a ddeuai ar eu hôl. Mawr yw'n dyled iddynt. Peth gwerthfawr yw hanes a thraddodiad. Dylem ymdrechu i'w cadw yn fyw.

Dyma rai dyfyniadau o'r Llyfrau Cofnodion. Yn Saesneg yr ysgrifennwyd hwynt hyd at y chwe blynedd olaf yn hanes yr ysgol.

14.5.'77—I, Robert Airey commenced active duties as master of the School, which was opened this day.

30.11.'78—The School hours (in the afternoon) changed. Giving only an hour instead of two, dinner time.

10.10.'87—Today, the teacher informed the scholars that no more Welsh is to be spoken in school hours, within the school premises. The Regulation to come in force on the 1st of November.

25.5.'88—Through the kindness of the following ladies, the children had a tea-party in the schoolroom at 4.30.

Mrs Jones, Caemawr
Mrs Lewis, Tredomen
Mrs. Morgans, Esgerdawe
Mrs Williams, Brynyrysgol
Mrs Morgans, Gelli
Mrs Morgans, Rhydlydan
Miss Davies, Maestroyddin
Mrs. Jones, Llundain
Mrs Lloyd, Pannau
Mrs Williams, Rhydfallen

25.11.'07—The school was in charge of Miss George, Assistant Teacher, as the master had to go and seek lodgings, or a house to live in; the landlady of the little cottage where he put up

since his arrival here, having too much work to do to attend to a lodger. After trudging all day could find no house, but succeeded in getting what appears so far a very convenient and respectable place to lodge in. Terribly inconvenient place this—would be very glad to get another place. Highest price for lodging, and a large family to rear at Carmarthen. I cannot make ends meet and get proper clothing, etc. for self and family.

24.3.'09—School requisites, as per order, have arrived at Lampeter since the 15th inst. I cannot, as yet, get anyone to cart them over, although they are well paid for bringing same over. They weigh 2 quarters and if I do not get anyone, I must try to carry them myself although the distance is long—6 miles. Afternoon Drawing is practically at a stand-still for want of India rubbers.

3.1.'10—This week Thanksgiving Services will be held here every evening, as the Chapel is being renewed. Services being held here every Sunday these last few months.

28.4.'14—The School Library cupboard despatched from Glasgow on 10th March was today received, being brought from Llanybyther Station by Mr. George George, Bryndafydd Uchaf.

21.10.'15—An Evening Class has been started here this week.

24.1.'16—The Light Woodwork Equipment was this week received.

15.2.'16—This evening, a concert was held in the School for David Lloyd, a former pupil, on the eve of his departure to the front, after his leave—He is with the Royal Field Artillery.

28.2.'17—A Public Meeting for the purpose of forming a War Savings Association in connection with this school, was held here this evening and addressed by Mr. Davies, Coedmore Council School and Mr. E. D. Rees, Registrar, Lampeter.

28.7.'19—Miss Parry, the Supplementary Teacher has been granted leave of absence to attend a course of kindergarten at Barry Summer School.

28.1.'26—The Headteacher attended a Public Conference held at Carmarthen under the auspices of the Departmental

Committee, on the Teaching of Welsh, and organised by the Education Committee.

11.2.'26—A Drama Performance at the School in aid of the School Library.

21.10.'29—The mid-day meal (soup) commenced today.

31.10.'29—Evening Classes commenced on the 7th inst. Seventeen students attending. Instruction is given in Rural Arithmetic, Welsh, English and Rural Science.

1.12.'30—The School furniture, (Five kindergarten tables and ten chairs) were delivered from Lampeter Station by Mr. W. M. Jones, Cwmdawe.

26.3.'33—A Gymnastic Display held at Swansea, under the auspices of the 'Urdd Gobaith Cymru'.

19.10.'33—Headteacher attending a Refresher Course at Oxford.

19.10.'34—Headteacher attending the South Wales Regional Conference at Tenby.

21.5.'36—A First Aid Outfit was received from the Education Office today.

12.11.'37—School in charge of Assistant Teacher as Headteacher represented the Llanybyther and District Local Savings Committee Area at the National Savings Demonstration in the Albert Hall, London.

18.11.'38—A centre, under the Carmarthenshire County Library Scheme was opened here today.

12.3.'40—The following articles, under the Voluntary Dining Scheme of the Committee were delivered here today:

4yds. of gingham
4 plates
2 serving spoons (2/-)
1 enamel jug (4/9)
1 enamel kettle (5/6)
2 enamel pans (5/4)
Carving knife and fork (4/6)

24.5.'40—Empire Day,—Children's contributions to Empire Day Appeal, Overseas League Fund = 448 pennies (£1.17.4.).

21.9.'40—5 tons 8½ cwts of Coal (nuts) were delivered today by the Amalgamated Anthracite Collieries Ltd., Pantyffynnon Colliery.

7.6.'44—Mid-day Meals commenced here.

Cafwyd un cymal yn Neddf Addysg, 1944, yn pwysleisio bod pob plentyn i dderbyn addysg Uwchradd ar ôl cyrraedd un ar ddeg oed. Gadawodd llawer o blant Ysgol Esgerdawe cyn hyn, er mwyn mynychu Ysgol Uwchradd Llanbed. Wrth gwrs, 'roedd hynny yn symudiad gwirfoddol. Eisteddodd eraill arholiad er mwyn cael mynediad i Ysgol Ramadeg. Llwyddodd amryw o'r disgyblion yn y cyfeiriad hwn a gwnaethant yn rhagorol yn ystod eu gyrfa addysg. Arhosai'r rhelyw yn Esgerdawe hyd nes cyrraedd eu pedair ar ddeg oed. Yna, gwasanaethent eu teuluoedd gartref ar y fferm. Ceid Arholiad Gwaith yn y blynyddoedd cynnar er mwyn galluogi'r rhai a ddymunai hynny i adael yr ysgol yn ddeuddeg oed.

O'r flwyddyn 1944 ymlaen, 'roedd yn orfodol i bob plentyn i adael Ysgol Esgerdawe a mynychu Ysgol Uwchradd Llanbed, ar ôl cyrraedd un ar ddeg oed. Cymerwyd peth amser i'r ddeddf gael ei gweithredu yn yr ardal. 'Roedd angen ad-drefnu'r system addysg i gwrdd â gofynion y ddeddf.

8.5.'45—Because of the end of hostilities and the announcement of V.E. Day in Europe, a two-day National Holiday is granted.

9.12.'46—Under the Milk in Schools Scheme, free milk is provided for each child. No liquid milk is available so that Full Cream Dried Milk is used as a substitute.

1.12.'49—The County Librarian visited the School. Arrangements are being made to supply us with Library Books next term.

24.2.'50—The first consignment of books, under the Library Service to Primary Schools, was delivered on the 21 inst.

25.5.'50—The Junior Children attended a Folk Song Festival at Llandysul.

23.5.'51—The School Clock has been overhauled, and a new bezel and glass have been fitted by Mr. D. E. Davies, Watch-maker, Lampeter.

2.5.'52—The Woodwork Bench was taken from this School to Capel Isaac C.P. School this evening.

2.2.'53—Dechrau ysgrifennu'r Cofnodion yn Gymraeg.

Rai misoedd yn ôl, dechreuwyd derbyn llaeth hylif o fferm Beili Ficer, Llansawel. Caiff ei gludo yr un ffordd â'r cinio gan Mr. Daniel James, Cartref, Llansawel. Bu ef yn cludo'r bwyd yn ffyddlon, prydlon a threfnus oddi ar y diwrnod cyntaf. O hyn allan rhennid y llaeth yn y prynhawn ac nid yn y bore fel o'r blaen.

15.5.'53—Derbyniwyd pymtheg o gwpanau oddi wrth y Pwyllgor Addysg ar gyfer eu dosbarthu i'r plant adeg y Coroni.

17.9.'54—Cynhelir y Sioe Flynyddol yn Llanbed heddiw, a chan fod nifer o'r plant yn bwriadu mynd yno, mae'r ysgol ar gau.

11.7.'55—Derbyniwyd Llyfrau ysgrifennu etc. oddi wrth Mri. E. J. Arnold a'i Fab, Leeds.

1.3.'56—Dethlir Gŵyl Ddewi heddiw drwy gynnal Cyngerdd yn yr Ysgol.

25.4.'56—Derbyniwyd Beibl Cymraeg newydd o'r Swyddfa Addysg yn ystod Gwyliau'r Pasg.

30.4.'56—Erbyn hyn, ysgol un-athro yw hon unwaith eto.

Perthyn llawer rhagoriaeth i ysgol fechan, wledig. Yn y cyfnod hwn, 'roedd cysylltiad agos rhwng y plant a'r athrawes—teulu bach dedwydd oeddent. Câi pob disgybl sylw unigol. Deuai'r plant â'u helyntion llawen a thrist, i'r ysgol. Rhennid y cyfryw deimladau a rhoddai'r agosatrwydd hwn gymorth i'r disgyblion i lwyr ymroddi i'w gwersi.

Ar y llaw arall, ceir rhai anfanteision pan fydd nifer y plant yn isel. Ni cheir yr elfen gystadleuol oherwydd nifer fechan a geir

ym mhob dosbarth. Nid oes cyfle i gymharu safonau ac ni ellir cymryd rhan mewn drama a chwaraeon arbennig. Rhaid chwarae gyda'r un ffrindiau bob dydd hefyd, ac felly, nid oes lle i ddigofaint.

1.10.'56—Derbyniwyd pedair tunnell a thri chant ar ddeg o lo o Lofa Gwaun Cae Gurwen.

9.10.'56—Ymweliad Miss Pryce, Trefnydd y Babanod a Miss Kettley, Ymarfer Corff. Datganasant eu hedmygedd o weld glendid a threfnusrwydd yr Ysgol.

28.2.'57—Cynhelir Etholiad Seneddol heddiw yn Sir Gaerfyrddin, ac felly mae'r ysgol ar gau.

5.1.'59—Agorodd yr ysgol heddiw wedi'r gwyliau. Pedwar o blant sydd ar y Gofrestr erbyn hyn, ond tri sy'n bresennol heddiw.

17.3.'59—Cynhaliwyd arholiadau yma heddiw er mwyn dosbarthu'r plant sy'n mynd i Ysgol Uwchradd Llanbed ym mis Medi.

10.7.'59—Yn bresennol am yr wythnos—100%.

17.7.'59—Presenoldeb y plant eto yn 100%.

Down yn awr at y cofnod olaf:

23.7.'59—Mae'r Ysgol yn cau prynhawn heddiw am Wyliau'r Haf. Bydd yn ail agor ar Ddydd Mawrth, Medi 1af, 1959.

Er mawr dristwch i'r plant a'r athrawes, ni wireddwyd y cofnod hwn. Erbyn mis Medi, fe'u gwasgarwyd. Aeth y rhai a fwriadai ddychwelyd i Esgerdawe i dair o ysgolion gwahanol. Collwyd llawer deigryn oherwydd i'r teulu bychan gael ei chwalu. Eto, edrychent yn ôl gyda chofion melys am gyfnod o wir hapusrwydd.

## YSTADEGAU O'R DYDDIAU GYNT

Yn Archifdy Dyfed yng Nghaerfyrddin cedwir y llyfrau canlynol, sydd yn cynnwys, fel y gwelir, liaws o gyfrifon ariannol Ysgol Esgerdawe, o 1898 hyd 1903:

The Ledger, Pencarreg School Board
The Cash Book, " " "
The Treasurer's Book, " "
Register of Mortgages and Transfers

Dyma rai ystadegau diddorol ohonynt:

*Salaries*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Apr. 22nd 1898 Master, Esgerdawe School (½ year's Salary) | £26 | 5 | 0 |
| Sewing Mistress Esgerdawe School (½ year's Salary) | 2 | 10 | 0 |
| Monitress Esgerdawe School (½ year's Salary) | 4 | 0 | 0 |
| Apr. 14th 1899 John Davies, Master (½ year's Salary) | 26 | 5 | 0 |
| Elizabeth George, Asst. (½ year's Salary) | 9 | 0 | 0 |
| Apr. 20th 1900. John Davies, Master (½ year's Salary) | 26 | 5 | 0 |
| Elizabeth George, Asst. (½ year's Salary) | 9 | 0 | 0 |
| Cleaner (½ year's Salary) | 1 | 2 | 6 |
| Mar. 31st 1902. John Davies, Master (½ year's Salary) | 26 | 5 | 0 |
| Elizabeth George, Asst. (½ year's Salary) | 10 | 0 | 0 |
| Cleaner (½ year's Salary) | 1 | 7 | 6 |

*Other Payments*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sept. 23rd 1898. Welsh Church Press (Books) | 2 | 14 | 9 |
| Sept. 23rd 1898. James Jones, Alltfydyr (Hauling Coal) | | 15 | 2 |
| Feb. 7th 1899. Rachel Lloyd (Sewing Materials) | 1 | 4 | 5 |
| Apr. 14th 1899. David Evans, Crachdir (2 Loads Firewood) | | 10 | 0 |
| July 6th 1900. John Davies, Cwmdawe (2 year's Ground Rent) | 1 | 0 | 0 |
| Jan. 31st 1902. William Davies, Bryneithin (Repairs) | | 7 | 0 |
| Feb. 14th 1902. J. Hughes-Evans, Dolgwm (Sewing Goods) | | 2 | 11 |
| May 26th 1902. J. T. Megicks (Tin Water Jug) | | 1 | 3 |
| June 30th 1902. J. Jones, Rhydfallen Fach (2 days' Labour at Pump) | | 5 | 0 |
| Sept. 29th 1902. D. Richards, Llanddewi (Repairing Pump) | | 12 | 6 |
| Dec. 12th 1902. B. Davies, Tancoed (Load of Firewood) | | 9 | 0 |
| Dec. 12th 1902. Joshua Jones (Repairs) | | 8 | 0 |
| Mar. 17th 1903. James Jones (Repairs) | 1 | 14 | 0 |
| Mar. 17th 1903. William Davies, Bryneithin (Cutting Firewood) | | 5 | 0 |

*Grants*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aug. 10th 1899. Annual Grant from Education Department | £60 | 5 | 0 |
| Aug. 10th 1899. Fee Grant | 5 | 0 | 0 |
| Oct. 1st 1900. Fee Grant | 5 | 7 | 6 |
| Jan. 1st 1901. Fee Grant | 5 | 7 | 6 |
| May 1st 1901. Annual Grant | 66 | 4 | 0 |

*Contributions from Conwil Gaio School Board*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oct. 19th 1899 | 23 | 11 | 4 |
| May 24th 1900 | 23 | 11 | 0 |
| Mar. 25th 1901 | 14 | 6 | 5 |
| Do | 23 | 11 | 3 |
| Oct. 3rd 1902 2 years' Contributions | 27 | 13 | 9 |

## HANES DAU SAMPLER

Cartrefir Amgueddfa Caerfyrddin yn Hen Balas Esgob Tyddewi yn Abergwili. Yno, cedwir dau sampler a wnaed yn Ysgol Esgerdawe tua chanrif yn ôl. Gwaith Elizabeth Edwards, o Gwmcanol ydynt. Dengys y lluniau ohonynt eu bod yn gain a chelfydd. Dyma ddisgrifiad o'r brodwaith a welir arnynt:

'Double meshed canvas embroidered with wool in tent stitch, cross stitch and satin stitch. The top of the sampler contains three rows of the letters of the alphabet, followed by the numbers 1 to 15. It is inscribed "Hath not my hand made all these thing. Elizabeth Edwards, age 12, 1885, School at Esgerdawe Board." A large and colourful building beneath the inscription probably represents Solomon's Temple. Solomon's Temple was a popular motif in nineteenth-century Samplers. The temple building is surrounded by plants and animals.'

Height—57cm x Width—43cm.

'Double meshed canvas embroidered with coloured wools in cross, tent, stem, eyelet and double running stitches. This sampler again has the old style of bands of letters across the top. The alphabet is arranged in four rows at the top, separated by geometric bands. Some of these letters are very ornate. The centrally placed inscription reads "Hath not my hand made all




Sampler Elizabeth Edwards
(*Drwy ganiatâd caredig Amgueddfa Sir Gaerfyrddin*)



Dyma'r Sampler arall
(*Drwy ganiatâd caredig Amgueddfa Sir Gaerfyrddin*)

these things." The bottom half of the sampler contains scattered motifs including trees, plants, birds and cats, which are arranged symmetrically. A strange building with a cockerel above it occupies the centre. It probably represents Solomon's Temple. The sampler is inscribed "Elizabeth Edwards, Cwmcanol, age 13 in the year 1886."' Height—65cm x Width—67cm.

Perthyn yr arferiad o wneud sampler i'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er hynny, ceir hanes fod gwrag-edd mewn oed yn gwneud sampleri yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, cyfyngwyd yr

arferiad i ferched ysgol. Gan nad oedd peiriannau gwnïo yn gyffredin, 'roedd cymhwyster mewn gwniadwaith yn angenrheidiol i ferched ar gyfer trwsio dillad y teulu. 'Roedd gwnïo sampler yn rhan bwysig o gwrs hyfforddiant merched.

Ar ran ucha'r sampler gosodid llythrennau'r Wyddor, y rhifolion ac arysgrifen bwrpasol, megis Gweddi'r Arglwydd neu'r Deg Gorchymyn. Cynhwysai'r rhan isaf frodwaith darluniadol wedi'i seilio ar themâu o'r Beibl. Mae'n debyg fod y sampleri sydd yn yr Amgueddfa wedi'u cyflwyno fel rhodd neu wedi'u pwrcasu. Tarddodd llawer ohonynt yn Sir Gaerfyrddin.

## HEN ATGOFION

Pleser yw edrych yn ôl ar ambell arferiad neu ddigwyddiad yn hanes Ysgol Esgerdawe. Hyfryd yw'r atgofion sydd gan y cyn-ddisgyblion am yr amser dedwydd hynny, pan oedd bywyd yn fwyniant digymar ac yn hollol ddibryder. Peth gwerthfawr yw'r gallu i gofio.

Ar Hydref 21ain, 1929, dechreuwyd gwneud cawl i'r plant yn lle'r brechdanau sych a'r te a baratoai'u rhieni iddynt. Yr adeg honno, trigai'r Prifathro yn Llanybydder. Deuai â chig gydag ef bob bore. Ambell waith, deuai'r plant yn eu tro â ffowlyn, cwningen neu ddarn o gig mochyn a cheid cawl ardderchog. Y merched, fel rheol, a fyddai'n paratoi'r llysiau a'r blawd. Trefnid bod dwy neu dair yn cymryd ati i fod yn gogyddion bob yn ail. Esgus da i ambell un na ddymunai wneud ei gwersi oedd treulio bore cyfan wrth y gwaith. Er mwyn rhoi cyfle i'r bechgyn i ddangos eu gallu, caent hwythau baratoi'r pryd blasus yn achlysurol. O ganlyniad i hyn, nid oedd gan y merched lawer o awch at flasu'r cawl hwnnw. 'Roedd yn well ganddynt 'fyw ar y gwynt' na mentro'i yfed.

Ar wahân i'r ffaith fod y plant yn dod â thatws, moron a rwdins at y cawl, 'roedd yr ysgol hithau yn berchen ei gardd. Drwy sym-

byliad a chynghorion yr athro, profai'r bechgyn hynaf fod ganddynt fedr arbennig i drin tir a chodi cynnyrch boddhaol. Nid palu'r ardd a wneid, ond ei haredig, a hynny heb gymorth ceffyl na thractor—y bechgyn grymus a dynnai'r aradr. 'Roedd hyn yn haws i ambell un, er caleted ydoedd, na chwysu uwchben gwers fathemateg neu iaith. Nid oedd tynnu'r og mor anodd. Yna, ceid hwyl wrth blannu'r llysiau a'u gweld yn egino a thyfu. Edrychid ymlaen yn eiddgar at flasu'r cyfan yn y cawl diguro a geid yn ystod y misoedd dilynol. Er mwyn cael arian i brynu cig cynhelid cyngerdd neu yrfa chwist.

Ambell waith, dysgid drama fer i'w pherfformio mewn cyngerdd. Cynhwysai'r rhaglen bob math o amrywiaeth. Rhaid oedd ymarfer yn gyson am rai wythnosau a mawr oedd y difyrrwch. Er nad oedd nifer y plant yn fawr, medrent roi oriau o adloniant i gynulleidfa gefnogol. Cynhaliwyd cyngherddau hyd at ddiwedd hanes yr ysgol, a hynny at achos teilwng arall, sef Capel Esgerdawe. Talentau lleol a gymerai ran, gan gynnwys y plant. Cafwyd cydweithrediad hyfryd rhwng y Capel a'r Ysgol ar hyd y blynyddoedd. Cynhelid cyngerdd bob nos Nadolig a barn pawb oedd bod gwledd yn hwyr gystal â gwledd hanner dydd y diwrnod hwnnw.

Trefnwyd ambell yrfa chwist lwyddiannus eithriadol. Math arall o baratoi oedd hynny—nid oedd angen llawer o dalent ar neb. Dim ond y gwobrau a'r bwyd gorau a wnâi'r tro i'r Prifathro, a dyna sut y sicrheid cefnogaeth a llwyddiant i'r noson. Nid oedd dim yn well hefyd na chael 'Meistr Seremonïau' a fedrai lanw'i swydd yn foddhaol a mynd yn weddol ddwfn i'w boced. Un noson, pan ddaeth yn amser i rannu tipyn o luniaeth i'r pedwarawdau wrth y byrddau, 'roedd angen help pob un o blant yr ysgol a oedd yn bresennol. Cariai dwy eneth weddol ifanc blatiau'n llawn o fwyd allan o'r ystafell gefn. Rywsut neu'i gilydd, digwyddodd anffawd ar y ffordd ac aeth y bwyd a'r platiau'n ddeilchion i'r llawr. Wrth gwrs, 'roedd y Prifathro yn y man a'r lle a phan welodd fod y merched yn sefyll yn grynedig heb wneud yr un ymdrech i'w codi, fe ddywedodd, "Codwch

nhw, fytan nhw ddim ohonoch chi.'' Dyna siom a gafodd y ddwy, yn enwedig pan godwyd y mater yn yr ysgol drannoeth yng ngŵydd y plant i gyd. Erys y digwyddiad ar eu cof hyd heddiw.

Teg yw cyfeirio hefyd at yr Eisteddfodau a gynhelid o dan nawdd y Capel. Anogai'r Prifathro rai o'r plant mwyaf addawol i gystadlu. Ai paratoadau brwd ymlaen am wythnosau. 'Roedd darnau fel 'Y Border Bach', 'Y Mynydd Mawr' a 'Cneua' mewn bri i adroddwyr ieuainc yn y cyfnod hwnnw. Nid oedd pob plentyn yn awyddus i ganu neu adrodd yn yr Eisteddfod. Chwiliai ambell un am ffordd ddigon cyfrwys i osgoi ymddangos ar y llwyfan. Un tro, pan alwyd ar y rhai a oedd i adrodd 'Y Mynydd Mawr', gwelwyd bod dwy ferch yn eisiau. Wedi i'r arweinydd alw eu henwau, 'doedd dim 'siw na miw' ohonynt a gorfu i'r gystadleuaeth fynd ymlaen hebddynt. Eithr, os na wyddai'r rhai oedd wrth y llyw beth a ddigwyddodd i'r merched, 'roedd yn wybyddus i'r mwyafrif o'r plant. Cuddio yr oeddent o dan un o seddau ôl y Capel ac ni welwyd mohonynt hyd nes yr aeth y gystadleuaeth heibio. Daeth eu hymddygiad i glyw'r Prifathro a chawsant gosb ar y cyfle cyntaf yn yr ysgol ar ôl noson yr Eisteddfod. Nid oedd ef i'w feio 'chwaith oherwydd peth annymunol yw gweld plant yn gwrthod ymateb wedi treulio wythnosau i'w paratoi. Dyma'r tro cyntaf a'r tro olaf i rywbeth fel hyn ddigwydd. 'Doedd wiw i neb efelychu'r merched hynny mewn eisteddfod na chyngerdd byth wedyn.

Arferai plant un cyfnod chwarae 'Tŷ Bach Twt' mewn mannau cyfleus ar iard yr ysgol ac yn yr ardd. Ceid miri anghyffrein, yn enwedig yn yr haf. Deuai'r merched â chyfarpar o hen lestri o'u cartrefi, gan gynnwys tegell, tebot a llestri te. Gwaith y bechgyn oedd gofalu am ddodrefn pwrpasol i bob tŷ. Defnyddiol iawn oedd gardd yr ysgol at gael lle addas i nifer o deuluoedd i fyw yn ei chloddiau. 'Roedd tad, mam a phlant ym mhob cartref a'r chwarae mor debyg i wir fywyd ag y gallai fod, gan gynnwys dydd priodas ac angladd. Pan fyddai'r chwarae yn ei anterth, câi'r athro dipyn o drafferth i gael y plant i mewn at eu

gwersi'n brydlon. Am nad oedd galw unwaith yn tycio, codai ei dymer a'r canlyniad oedd cosb weddol drom. Un tro, aeth pethau 'dros ben llestri' a dewisodd y meistr ddau neu dri o'r bechgyn hynaf i gasglu llestri'r cartrefi bach mewn bocsys. 'Doedd gan neb o'r plant syniad beth oedd ar ddigwydd. Yng nghornel iard yr ysgol 'roedd caead lle gynt a safai'r pwmp dŵr. Ar ôl codi'r caead, gellid canfod fod yno dwll dwfn, diwaelod. Wedi gofalu bod y plant i gyd yn ddiogel, gorchmynnodd y Prifathro i'r bechgyn ei helpu i arllwys y llestri i lawr i'r dyfnder du. Wrth glywed y cyfan yn torri'n ddeilchion wrth ddisgyn, disgynnai dagrau mawrion dros ruddiau perchnogion y llestri. Dyna derfyn ar y chwarae hwnnw am beth amser, ond dysgodd y plant fod ufudd-dod yn hanfodol, hyd yn oed pan oedd y chwarae wedi cyrraedd ei uchafbwynt.

'Roedd gyrru cylch â bachyn yn arferiad difyrrus i'r bechgyn a'r merched. Gwaith Josi'r gof lleol oeddynt. Cadwai'r plant ef yn brysur am ddyddiau, ond teimlent fod gyrru'r cylch yn byrhau ac ysgafnhau'r daith i'r ysgol yn ogystal â'r ffordd adre yn y prynhawn. Er mwyn cyflymu fwyfwy ar y daith, mentrai ambell un beiddgar fynd i lawr dros oriwaered mewn hen deiar. Dyna beth oedd cyflymder! Nid gwiw i blant yr oes hon deithio felly i lawr dros riwiau'r fro. Difancoll a fyddai eu hanes o gofio am drafnidiaeth ein cyfnod.

Ambell dro, 'roedd chwarae 'mob' neu guddio ar iard yr ysgol mewn bri am ddyddiau lawer—un yn cuddio'i lygaid ger y drws a rhifo hyd gant tra byddai'r lleill yn rhedeg i guddio mewn lleoedd rhyfedd iawn. Rhifai rhai yn dra chyflym, gan ddod o hyd i'r plant i gyd mewn byr amser. Cymerai'r olaf i ddod i glawr ei dro i rifo'r tro nesaf.

Yn y cyfnod cynnar, 'roedd chwarae bando yn boblogaidd iawn ym mhlith y plant, ac, wrth gwrs, bu chwarae marblys, 'conkers' a 'rounders' yn eithriadol o gyffredin. Yn ddiweddarach, ceid chwaraeon megis

'Defaid, defaid, dewch adre'
'Faint o'r gloch yw hi, Mr. Blaidd?'

'Mae tân ar y mynydd. Rhedwch, rhedwch'

'Digon o Amser'

Bu'r Awdurdodau, ym mhob cyfnod, yn ddoeth i drefnu bod 'amser chwarae' ar amserlen pob ysgol.

## DIREIDI PLANT

Fel plant pob ysgol ni fu plant Esgerdawe yn fyr o'r cyfle i gael tipyn o ddireidi yn ystod eu plentyndod. Direidi digon diniwed ydoedd yng ngolwg y plant, ond gallai fod wedi troi'n ofid lawer tro.

Ar wahân i'r merched a fyddai'n gyfrifol am olchi'r llestri, âi'r mwyafrif o blant un cyfnod allan o gyffiniau'r ysgol bron bob dydd, ac eithrio tymor y Gaeaf. Gwyddent am goed pwrpasol er mwyn cael tipyn o hwyl. Gorfodai dau neu dri o'r plant hynaf bob plentyn i daflu'i gap i fyny i'r canghennau uchel. Nid yn anaml yr eid adre' hebddynt, hyd nes y bodlonai bachgen mentrus ddringo'r goeden i'w cyrchu. Rhaid oedd derbyn cerydd rhieni am weithred o'r fath.

Arfer arall, yn ystod yr awr ginio, oedd mynd i lawr dros y llethrau at afon Tawe. Nid ymdrochi oedd y bwriad ond neidio dros yr afon, gan gydio'n nwylo'i gilydd. Ambell waith, tynnai plentyn haerllug ei gymydog gwirion yn ôl. Disgynnai hwnnw i ganol yr afon nes ei fod yn wlyb i'r croen. Yna, rhoddai plant meddylgar fenthyg dilledyn sych i'r truan hwnnw am weddill y prynhawn, gan guddio'r dillad gwlybion ym môn clawdd. Cesglid y sypyn diflas ar y ffordd adref. Wrth lwc, ni foddwyd neb, er bod neidio'r afon yn un o chwaraeon mwyaf cyffredin y cyfnod. Ni wyddai'r prifathro fod y pethau hyn yn digwydd. 'Roedd ef yn brysur yn darllen ei bapur dyddiol a deuai'r plant i gyd i mewn fel angylion, pan fyddai'n amser cychwyn eisteddiad y prynhawn. Ni wyddai neb fod rhywbeth anarferol wedi digwydd. Mae hyd yn oed plant yn ddeheuig yn y cyfeiriad hwn!

Un tro, dringodd un o'r bechgyn goeden yn yr ardd. Disgwyliai gweddill y plant ei weld yn disgyn cyn hir ond arhosodd ar gangen weddol uchel. 'Rôl disgwyl am dipyn a'i gymell i ddod i lawr, gwnaeth yn eglur na fwriadai wneud hynny hyd nes y torrid y goeden. Gwnaed hynny, ac, er syndod i bawb, cyrhaeddodd y ddaear heb i neb gael niwed. Tybed ai ofn disgyn oedd arno neu ryw ddireidi a'i meddiannodd ar y pryd?

'Roedd gan un Prifathro goes bren oherwydd iddo wasanaethu yn y fyddin am gyfnod. Anodd yw credu'r stori a draethwyd gan un o'r plant a fynychai'r ysgol yr adeg honno. Pan alwyd y disgyblion i mewn ar ôl chwarae, arferai'r Prifathro, a oedd yn ŵr tal, lluniaidd, eu gorfodi i fynd rhwng ei goesau wrth ymdeithio at y drws. Rhoddai hyn gyfle iddo roi cosfa i ambell ddrwgweithredwr. Ymhlith y bechgyn, 'roedd bachgen cryf, cyhyrog yn llawn drygioni. Wrth fynd drwy'r twnnel un diwrnod, fe gododd, gan daflu'r Prifathro i'r llawr, gyda'r canlyniad i'w goes bren ddod yn rhydd. Gwaith y plant diniwed oedd ailosod y pinnau i ddal y goes yn ei lle. Rhaid oedd ei gynorthwyo er mwyn ei alluogi i fynd ar unwaith i mofyn ei gansen a'i defnyddio'n drwm ar y troseddwr. Cydnabyddai hwnnw mai cosb fythgofiadwy oedd honno ac na feddyliodd am gyflawni'r fath drosedd byth wedyn.

Yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd, pan ddaeth nifer o ffoaduriaid i'r ardal, gwelwyd nad oeddent hwythau yn ddi-fai. Mynychent yr ysgol yn gyson gan ddysgu'r iaith Gymraeg yn weddol fuan. Wrth fynd adref heibio i'r fynwent ambell brynhawn, âi rhai ohonynt i mewn i ddwyn cerrig bychain, gwynion o'r beddau. Yna, taflent hwy i ben bwthyn hen wraig a drigai ar ben ei hun. Rywsut, digwyddai rhai o'r cerrig fynd i lawr drwy'r simnai i'r tân, gan godi tymer yr hen wreigen. Nid heb achos yr aeth lawer tro i achwyn am eu hymddygiad wrth y Prifathro. Câi'r troseddwyr flas y gansen yn lled drwm ar gledrau eu dwylo.

'Roedd ambell Gymro hefyd yn ddigon beiddgar i ddangos ei ddireidi profoclyd ynghanol gwers. Un bore, ceisiai'r athro

ddysgu'r plant hynaf i ynganu geiriau Saesneg yn gywir. Y gair dan sylw oedd 'water'. Mynnai rhai o'r bechgyn ei ddweud fel pe bai'n air Cymraeg, gan swnio'r llythrennau bob un. Bu'r athro wrthi'n hir yn ceisio ganddynt i ddweud 'woty' ond ofer oedd ei ymdrechion. Wedi poeni'n galed, collodd ei dymer, gan baratoi i gyrchu'r gansen. Cyn iddo gael amser i wneud hynny, fe glywai'r plant yn dweud y gair yn hollol gywir. Ni fu'r athro'n hir cyn sylweddoli mai ei brofocio yr oeddent. Felly, cosb oedd yn dilyn am ymddwyn yn y fath fodd.

Efallai mai direidi digon gwirion oedd eiddo plant y dyddiau gynt. Teimlent fod byw y tu fewn i furiau'r iard yn cyfyngu gormod ar eu profiadau. 'Roedd arnynt awydd anturio i'r byd y tu allan. Efallai i'r fenter i dresmasu fod yn gymorth i ledu'u gorwelion. Tybed a gawsant symbyliad i 'sgrifennu stori anturiaethus yn ddiweddarach yn eu bywyd? Pwy a ŵyr?

'Roedd diwrnod ysgol yn cynnwys profiadau amrywiol. Nid oedd undonedd na diflastod yn poeni dim ar blant y dyddiau hynny. Eu hamserlen oedd lawn. Dyma'r unig gyfle oedd ganddynt i arbrofi eu dyhead am brofiadau newyddion. Wedi gorffen eu diwrnod yn yr ysgol, rhaid oedd iddynt wynebu gwaith caled y fferm. Ni cheid peiriannau at bob gorchwyl. Felly, 'roedd gwaith i bawb, yn enwedig amser hau a medi.

Ni chaiff plant ysgolion cynradd yr oes hon gyfle i gyflawni direidi yn ystod oriau'r ysgol. Ni chaniateir iddynt grwydro o gyfyl y lle, ar wahân i fynd ar neges i'r Swyddfa Bost neu Siop y Pentref. Er hynny, cânt fwy o oriau hamdden wedi amser ysgol. Dyfeisiwyd peiriannau i gyflawni pob math o waith ac nid oes angen cymaint o ddwylo ar fferm nac mewn ffatri. Mae hyn yn peri i blant grwydro a chyflawni pethau annymunol ambell waith. Dwylo segur sy'n cyflawni troseddau difrifol.

## Y FLWYDDYN OLAF

Dyma ni'n dod yn awr at hanes y flwyddyn olaf. Aeth dros bedwar ugain mlynedd heibio oddi ar y diwrnod yr agorwyd yr ysgol. Gwelwyd cyfnewidiadau aruthrol—nifer y plant wedi gostwng, y cynllun gwaith yn wahanol, yr iaith wedi newid ond yr hen adeilad yn dal yr un ac ar ei newydd wedd, wedi'i beintio y tu mewn.

Ar ôl gwyliau'r Haf, yn y flwyddyn 1958, agorodd yr ysgol ar Fedi'r cyntaf. Dim ond pump o blant a ddaeth i'w haddysgu. Dyma'u henwau ac enwau eu cartrefi:

Ann Herbert, Gwarcoed
Margaret Jones, Rhydfallen Isaf
Hefin Price, Caemawr
Danny Davies, Rhydfallen Ganol
Stephen Martin, Cwmcanol

'Roedd y teulu bach yn hapus o gael dychwelyd i'r hen aelwyd, a minnau,—ers blwyddyn wedi newid fy nghyfenw yn Williams. Gwelid eisiau dau o'r cyn-ddisgyblion, sef

Mair Price, Caemawr a
Tommy Davies, Rhydfallen Ganol

Deniadol iawn oedd y cyfan y tu mewn i'r adeilad y diwrnod hwnnw. Peintiwyd y muriau a'r drysau yn ystod y gwyliau gan Mr. T. L. Thomas a'i Feibion, o Lanllwni. Drwy eu hymroddiad hwy a gofal manwl Miss Morgan o Fryneithin, pleser oedd ymgynnull i ddechrau blwyddyn arall o waith. Mae amgylchedd mor bwysig. Haws yw cyflawni unrhyw dasg pan fydd popeth yn ddymunol o'n cwmpas na phan fydd y cyfan yn flêr ac anrhefnus. Gorchwyl cyntaf y tymor oedd gosod darluniau addas ar y muriau moel. Cedwid y goreuon o'r flwyddyn flaenorol a chafwyd rhai priodol eraill ar gyfer yr adeg honno o'r flwyddyn. Nid gwiw gosod dim annymunol i fyny mewn ystafell mor lân!

Bu'r plant yn bresennol bron i gyd am yr wythnos gyntaf o'r

tymor—y presenoldeb yn naw deg wyth y cant. Cynhwysai'r gwaith wersi cyson yn y pynciau elfennol,—darllen, ysgrifennu Cymraeg a Saesneg a Rhifyddeg, ynghyd â phynciau amrywiol eraill. Gan fod mis Medi wedi dod, naturiol oedd sôn am y cynhaeaf ŷd. Câi'r plant ymdrin â'r gweithgareddau ar eu ffermydd a chyfle i sylweddoli bod angen paratoi erbyn y gaeaf. Esboniwyd a dysgwyd dau ddarn o farddoniaeth yr wythnos honno. Darnau addas oeddynt, yn ymwneud â'r wers Natur. 'Tro yng Nghymru', gan T. Eurig Davies oedd un, lle sonnir am y gŵr hwnnw o Lydaw yn cario'i raffau trwm o wynwyn i'w gwerthu wrth ddrysau'r Cymry. Yr englyn, 'Mis Medi', gan Gwilym R. Tilsli oedd y llall.

Os oedd y cynhaeaf yn foddhaol yng Nghymru, ac o bosibl yn Llydaw y flwyddyn honno, 'roedd yr athrawes am i'r plant amgyffred y gallai fod yn fethiant ambell waith. Cymerwyd yr hanes hwnnw o Lyfr Habacuc, y proffwyd—am y gŵr hwnnw a lawenychai yn yr Arglwydd, er i'w gynhaeaf fethu. Câi'r plant gyfle i gydnabod gwerth ysgubor lawn a chanu'r emyn, 'Rhoi o hyd'.

Dyma'r gwersi Natur eraill yr ymdriniwyd â hwy yn ystod y tymor:

Llygod y Cae Ŷd
Corynnod
Cleren Las
Dail yr Hydref
Y Fronfraith
Y Wiwer
Y Carlwm
Y Cadno
Y Mochyn Daear
Coed Bythwyrdd

Wele ragor o gynnwys y Cynllun Gwaith yn y cyfnod hwnnw:

*Daearyddiaeth*

Hanes Siwgr
Ffrwythau o'r Gwledydd Pell
Ein Fferm Ni—
Ffermydd yr Ardal

*Hanes*

Y Dynion Bach a'r Dynion Mawr
Y Rhufeiniaid
Caradog—Arweinydd Dewr
Stori Branwen
Guto Ffowc
Y Rhufeiniaid yng Nghymru
Newyddion Da am Iesu yn dod i Gymru
Y Brenin Arthur
Syr Owen M. Edwards

*Barddoniaeth*

Dysgub y Dail (Crwys)
Crinddail (T. Gwynn Jones)
Cwm Pennant (Eifion Wyn)
Y Fronfraith (Thomas Jones)
Englyn i'r Gwely (Alafon)
Y Wiwer (J. T. Job)
Neithiwr (Crwys)
Y Ddwy Ŵydd Dew (I. D. Hooson)

*Caneuon*

Y Llygoden
Dewch i Chwarae
Dail yr Hydref
Y Crwydryn Llon
Rhowch Geiniog i Mi
Y Wennol

Y Wiwer
Pwy yw'r Hen Ŵr?
Nadolig

Arferid dewis llyfr pwrpasol a diddorol a darllen ac egluro pennod ohono ar ddiwedd y prynhawn. Ar ddechrau'r tymor hwn dechreuwyd ar stori *Deian a Loli*, gan Kate Roberts. Câi'r disgyblion flas anghyffredin wrth wrando ar hanes y ddau blentyn ac edrychent ymlaen gyda brwdfrydedd at y bennod nesaf. Cymerwyd rhai wythnosau i fynd drwy'r llyfr, ond cafwyd mwynhad o'r mwyaf wrth ddilyn helynt yr efeilliaid o Fwlch y Gwynt. 'Roedd actio ambell ran yn ddiddorol—deuai'r cyfan yn fyw iawn ger bron llygaid y plant. Ymdriniwyd â hanes *Gwilym a Benni Bach* gan Llewelyn Williams a *Nedw* gan E. Tegla Davies yn yr un modd.

Diddorol oedd y gwersi Beiblaidd yn y tymor hwnnw hefyd:

Dameg y Talentau
Y Ddau Ddall ar y Ffordd
Yr Ynfyd Cyfoethog
Gweddi'r Arglwydd
Gardd Eden
Naaman y Syriad
Hanes Samiwel
Hanes Job
Geni'r Iesu
Y Bugeiliaid a'r Doethion
Ffoi i'r Aifft

Yn ogystal, dysgid adnodau, salmau, emynau a charolau addas. 'Roedd gan y plant nifer helaeth ohonynt ar eu cof. Mae'r hyn a ddysgir gan blentyn yn eiddo iddo gydol ei oes. 'Does dim yn well na chyfoeth o wybodaeth—ni fedr neb ei ddwyn oddi arnom.

Cafwyd dau ddiwrnod o wyliau yn ystod y tymor cyntaf o'r flwyddyn olaf—dydd Sioe Llanbed ar y pedwerydd ar bymtheg o

Fedi a diwrnod Cyfarfodydd Diolchgarwch y Capel, sef y pumed o Dachwedd.

Bu un o'r disgyblion, Stephen Martin, yn absennol am rai wythnosau ar ddiwedd y tymor. Ymwelodd Miss R. E. Lewis, y Swyddog Lles â'i gartref oherwydd hynny. Amharodd lawer ar ganran presenoldeb y plant a syrthiodd y ffigur dros bedwar ugain y cant am y tymor. Ar y pedwerydd ar bymtheg o Ragfyr, caewyd yr ysgol am bythefnos o Wyliau'r Nadolig. Cafwyd ychydig o adloniant y prynhawn hwnnw—perfformio rhannau o Ddrama'r Geni, adrodd darnau pwrpasol a chanu carolau. Yna, aeth pawb adref i fwynhau un o wyliau mwyaf dedwydd y flwyddyn.

Ailagorodd yr ysgol ar y pumed o Ionawr, 1959. Pedwar o enwau oedd ar y Gofrestr ond tri oedd yn bresennol. Ymadawodd Stephen Martin oherwydd symudodd y teulu'n ôl i Loegr. Am fod salwch ymhlith y plant, isel oedd eu presenoldeb yr wythnos gyntaf o Dymor y Pasg—pedwar ugain a phump y cant. Cafwyd tipyn o eira yn ystod y penwythnos a dim ond un plentyn oedd yn bresennol y Llun canlynol. Bu'r presenoldeb yn lled isel drwy fis Ionawr—trigain a deg y cant. Afiechyd a'r hin anffafriol oedd yn gyfrifol am hynny.

Ar yr ail ar hugain o Ionawr, bu Mr. T. J. Rhys Jones, Trefnydd Iaith y Sir yn arholi'r ddau blentyn a fyddai'n ymadael am Ysgol Uwchradd Llanbed wedi Gwyliau'r Haf. Erbyn Mis Bach, cafwyd gwell presenoldeb. Bu'n gant y cant am dair wythnos, a phymtheg a phedwar ugain y cant am yr wythnos arall. Mae'n amlwg fod y teulu bach yn weddol gryno.

Diddorol yw nodi testunau'r gwahanol bynciau am y tymor hwn hefyd. Amcan pob ysgol yw helaethu gwybodaeth y disgyblion ym mhob pwnc. Dengys y rhestri fod yno ddigon o amrywiaeth ac anogaeth i ymddiddori mewn barddoniaeth a llenyddiaeth glasurol.

Dyma'r teitlau yr ymdriniwyd â hwynt:

*Gwersi Natur*

Rhew ac Eira
Y Frongoch
Gwisgoedd Anifeiliaid yn y Gaeaf
Cwningod ac Ysgyfarnogod
Mis Chwefror
Lili Wen Fach
Defaid ac Ŵyn
Penbyliaid
Y Daffodil
Y Gwanwyn

*Daearyddiaeth*

Ein Hysgol Ni
Pentref Esgerdawe
Tai sydd wedi syrthio
Pentrefi Cyfagos
Plentyn yn Ne Asia a China

*Hanes*

Rhodri Mawr
Dewi Sant
Hywel Dda

*Barddoniaeth*

Yr Ôd (Ceiriog)
Ionawr (Eifion Wyn)
Hen Fwthyn (T. Llew Jones)
Anlwc Rhys (Eifion Wyn)
Cwningod (I. D. Hooson)
Y Sipsiwn (Eifion Wyn)
Y Daffodil (I. D. Hooson)

*Caneuon*

Llanast
Robin Goch
Bachgen Bach o Dincer